Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

*Welsh Language Advisory Panel*

11 Mawrth 2024 am 2yp
Cyfarfod Teams

COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

| | | |
|---|---|---|
| Cyng. Glynog Davies | GD | Plaid Cymru (Cadeirydd) |
| Cyng. Andrew Davies | AD | Plaid Cymru |
| Cyng. Carys Jones | CJ | Plaid Cymru |
| Cyng. Jean Lewis | JL | Plaid Cymru |
| Cyng. Tina Higgins | TA | Llafur |
| Cyng. Kevin Madge | KM | Llafur |
| Cyng. Sue Allen | SU | Annibynnol |
| Swyddogion | | |
| Llinos Evans | LLE | Rheolwr Polisi a Chynnwys |
| Sioned Raymond | SR | Swyddog Polisi Graddedig |

| Rhif | Testun a phwyntiau gweithredu | Yn gyfrifol |
|---|---|---|
| **1.** | Croeso ac Ymddiheuriadau<br><br>Croesawyd Kelly Morris, Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu o'r Cyngor Sir a Llyr ap Dafydd Jones o Adran Gymraeg y Llywodraeth Cymru i'r cyfarfod.<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths a Gwyneth Ayres. | |
| **2.** | Cofnodion y Cyfarfod diwethaf<br><br>Cynigodd Cynghorydd Jean Lewis ei bod yn gofnod cywir ac eiliodd Cynghorydd Sue Allen hyn. | |
| **3.** | Cyflwyniad – Cymraeg i fusnesau Sir Gâr<br><br>Esboniodd Kelly Morris ei bod wedi bod yn gweithio gyda busnesau'r Sir ers tua 6 mis bellach gyda'r nod o drosglwyddo'r hyn rydym yn gwneud gyda staff y Cyngor i fusnesau'r Sir. Fel Cyngor rydym yn awyddus i roi cefnogaeth i'r busnesau a hyder i ddefnyddio'r Gymraeg.<br><br>Rhoddwyd cyfle i'r busnesau hyn a oedd wedi rhoi ceisiadau mewn am grantiau ARFOR i gael ei dweud. Un o'r pwyntiau a gafodd ei godi drwy'r ceisiadau yw bod angen mwy o gefnogaeth o ran defnyddio'r Gymraeg yn ymarferol a sut bod modd cynyddu defnydd o fewn y busnesau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn symud ymlaen o hyn, fe gynhaliodd Kelly sgyrsiau 1-1 gyda llawer o'r busnesau. Yr hyn a ddaeth i'r amlwg yw bod nifer yn awyddus i uwchraddio ei staff i allu defnyddio mwy o'r Gymraeg a chael cymorth i wneud tasgau megis cyfieithu bwydlenni.<br><br>O'r wybodaeth a dderbyniwyd aethant ati i greu cynllun gweithredu pedwar rhan:<br><br>1. Cefnogi busnesau<br>2. Cynyddu Sgiliau Iaith<br>3. Prentisiaethau, Profiad Gwaith, Hyfforddiant<br>4. Marchnata<br><br>Mae Mentrau Iaith y Sir hefyd yn gwneud llawer o waith gyda busnesau ac yn y dyfodol agos bydd Kelly yn cwrdd â nhw i weld sut bod modd symud ymlaen a chydweithio.<br><br>Esboniodd Kelly ein bod wedi elwa fel Cyngor o gyllid Cymraeg Gwaith, gyda llawer o staff y Cyngor wedi bod ar y cyrsiau. Cynhaliodd Kelly trafodaethau gyda'r Ganolfan Ddysgu i weld a fyddai'r Cyngor yn gallu cynnal y sesiynau ar gyfer y busnesau er mwyn rhoi'r cyfle iddynt wneud y cyrsiau. Cynhaliodd Kelly sesiynau briffio gyda'r busnesau, gyda 48 ohonynt yn dangos diddordeb i wneud y cyrsiau. Roedd y rhan fwyaf eisiau cyrsiau wythnosol, ac yn barod ymrwymo i tua 3 awr yr wythnos. Bydd y sesiynau yn ddechrau yn Ebrill gyda 25 o ddysgwyr o fusnesau amrywiol y Sir wedi ymrwymo. Dyma sut redir y sesiynau:<br><br>- Bore Llun 09:00-12:00<br>- Nos Fawrth 17:00-20:00<br>- Awr o sesiwn hunan astudio'r wythnos<br><br>Roedd y busnesau yn awyddus i gwrdd wyneb yn wyneb a rhai dosbarthiadau rhithiol. Bydd y sesiynau yn adlewyrchu'r hyn maent eisiau ei wneud sef darparu gwasanaeth dwyieithog.<br><br>Y bwriad hir dymor wedi'r cwrs yw ei bod yn symud ymlaen i'r lefel nesaf. Wrth edrych tuag at y dyfodol esboniodd Kelly yr hyn a rhagwelir yw bod y rhwydwaith yn cael ei gynnal gyda mudiadau fel y Mentrau i gael busnesau i rannu profiadau ac adnoddau.<br><br>Diolchodd Cynghorydd Glynog Davies i Kelly am ei chyflwyniad trylwyr gan nodi pa mor braf oedd gweld yr uchelgais sydd gan fusnesau a'r awydd i ddysgu a datblygu'r iaith. Nodwyd ei fod yn bwysig codi hyder a rhoi'r cyfleodd i bobl ifanc er mwyn iddynt allu siarad Cymraeg yn gyhoeddus.<br><br>Ategodd nifer o'r Cynghorwyr ei diolch i Kelly am yr holl waith gyda'r busnesau a pa mor bositif yw'r gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yma.<br><br>Derbyniodd y Panel yr adroddiad. | |
| 4. | Cyflwyniad Enwau Lleoedd<br><br>Croesawodd GD, Llyr ap Dafydd Jones o adran Gymraeg yn y Llywodraeth i roi cyflwyniad ar bolisïau enwau lleoedd.<br><br>Gweithia'r llywodraeth yn benodol ar raglen gweithredu i amddiffyn enwau lleoedd Cymraeg. Y cytundeb yw gweithredu i sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn yr | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | amgylchedd adeiledig a naturiol yn cael eu diogel a'u hyrwyddo ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.<br><br>Esboniwyd y cyd-destun polisi:<br><br>• Cymraeg 2050: Thema 3 - Seilwaith a Chyd-destun<br>• Cymraeg 2050: Cynllun Gweithredu 2021-26<br>• Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg (2022)<br>• Polisi Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg (2023)<br>• Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016/2023<br>• Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru).<br><br>Nodwyd fod gwahanol fathau o enwau lleoedd gan nodi'r prif rai:<br><br>- Enwau **aneddiadau** (pentrefi, trefi, dinasoedd)<br>- Enwau **eiddo** (gan gynnwys tai, ffermydd, ac adeiladau eraill)<br>- Enwau **busnesau** (gan gynnwys tafarndai, siopau ac ati; arwyddion brown)<br>- Enwau **nodweddion daearyddol** (mynyddoedd, llynnoedd, rhaeadrau, caeau ac ati)<br>- Enwau **datblygiadau a strydoedd**<br><br>Mae nifer yn enwau hanesyddol a phwysleisiwyd fod yr holl enwau yn dod a materion gwahanol i'w ddatrys.<br><br>Mae nifer o sefydliadau ynghlwm ac enwau lleoedd, nodir y prif gyrff isod:<br><br>- Comisiynydd y Gymraeg<br>- Is-adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru<br>- Cadw, Llywodraeth Cymru<br><br>Mae gorgyffwrdd sylweddol rhwng y meysydd hyn, ac mae'r gwaith yn cael ei ddwyn ymlaen ar y cyd.<br><br>Tanlinellwyd yr hyn mae'r Llywodraeth yn ei wneud, gan nodi ei bod yn comisiynu ymchwil i'w galluogi i ddatblygu ymyraethau polisi i warchod enwau ym mhob rhan o Gymru. Rhai o'r nodau ymchwil yw:<br><br>➢ Canfod ble, sut a pham mae enwau eiddo yn newid.<br>➢ Deall dulliau a pholisïau presennol awdurdodau lleol ar gyfer deilo a cheisiadau i newid enw eiddo.<br>➢ Cael gwell dealltwriaeth a pam fod rhai perchnogion busnesau eisiau mabwysiadau enwau newydd yn lle enwau eiddo Cymraeg sydd eisoes yn bodoli.<br>➢ Clustnodi newidiadau enwau topograffig Cymraeg, pam fo'r rhain yn digwydd ac union natur y newidiadau hyn.<br><br>Yr hyn mae'r Llywodraeth yn ei wneud i warchod enwau lleoedd yw:<br><br>• Gweithio gyda phartneriaid a busnesau i warchod enwau daearyddol.<br>• Ystyried y defnydd o gyfamodau i warchod enwau tai.<br>• Archwilio'r defnydd o becynnau trawsgludo fel ffordd o godi ymwybyddiaeth o werth enw eiddo penodol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Ystyried ffyrdd newydd o godi ymwybyddiaeth o Restr Enwau Lleoedd yn Hanesyddol Cymru a'i harwyddo.<br>• Cadw golwg ar ddatblygiadau ym mae wardiau etholaethol.<br>• Cynhyrchu canllawiau y gellir eu haddasu gan sefydliadau allanol, a bwriedir trafod gydag awdurdodau lleol cyn hir.<br><br>Fe ddaeth y cyflwyniad i ben drwy nodi rhai o'r camau nesaf:<br><br>- Gweithredu ar sail y dystiolaeth o'r ymchwil.<br>- Mae cyfnod cyntaf yr ymchwil wedi cadarnhau rhai o'n rhagdybiaethau.<br>- Bydd cam olaf yr ymchwil, sydd ar y gweill, yn llenwi'r blwch yn ein dealltwriaeth o safbwynt enwau answyddogol .<br>- Ddyn ni heb ddiystyru unrhyw gamau polisi.<br><br>Bellach maent wedi sefydlu Fforwm Sirol Enwau Lleoedd gan nodi fod Llinos Evans (Polisi) yn cynrychioli Cyngor Sir Gâr ar y Fforwm. Bwriad y Fforwm yw rhannu arferion da a chanfod bylchau yn y ffordd ag ymdrin ag enwau lleoedd.<br><br>Nododd Llyr ei fod yn agored i unrhyw syniadau ac os bod aelodau o'r Panel eisiau unrhyw wybodaeth bellach bod modd iddynt gysylltu gydag ar: Cymraeg2050@llyw.cymru <mailto:Cymraeg2050@llyw.cymru>.<br><br>Diolchodd GD am ei gyflwyniad pwerus gan bwysleisio pwysigrwydd gwarchod enwau ein lleoedd ac yr angen i ni gyd-weithio gyda'r Llywodraeth.<br><br>Gofynnodd Cynghorydd Andrew Davies am y posibilrwydd o greu ymgyrch gyhoeddus i hysbysu trigolion cyn iddynt wneud y penderfyniad i newid enw lle. Ategodd Llyr gan ddweud ei fod yn syniad da, a bod modd pasio'r syniad ymlaen at gwmnïau teledu fel y BBC. | |
| 5. | **Diweddariad Iaith Gymraeg**<br><br>Hysbyswyd aelodau o'r Panel am gyfarfod nesaf y Fforwm sydd ar y Dydd Gwener, 22ain o Fawrth. Bydd thema'r cyfarfod wedi ei selio ar flynyddoedd cynnar.<br><br>Esboniwyd fod Cynllun ARFER ar ddechrau i adran Gwella Ysgolion a DMT. Y bwriad yw rhoi ymyriadau iaith mewn lle er mwyn annog mwy o staff i ddefnyddio fwy o'r Gymraeg yn y gweithle. | |
| 6. | **Unrhyw fater arall**<br>Ni chododd unrhyw faterion arall. | |
| 7. | **Cyfarfodydd y dyfodol**<br><br>▪ *8 Gorffennaf*<br>▪ *21 Hydref* | |